

Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG

COFNODION CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION (FFCY) CAERDYDD



Amser: 8.30am – 10.30am
Dyddiad: 15.01.2025
Lleoliad: Microsoft Teams
Yn bresennol: Cadeirydd – Andrew Skinner (AS), Nic Naish (NN), Cllr Sarah Merry (SM), Cllr Chris Weaver (CW), Melanie Godfrey (MG), Ian Allwood (IA), Eifion Austin (EA), Angela Jardine (AJ), Gareth Rein (GR), Paul Tucker (PT), Tim Adams (TA), Stuart Davies (SD), David Silver (DS), Abigale Cuthbert (AC), Suzanne Scarlett (SS), Marc Belli (MB), Matthew Evans (ME), Carys Prytherch (CP), Wayne Murphy (WM), Ivor Gittins (IG), Sarah Parry (SP), Clerc Rheoli Addysg

Ymddiheuriadau: Helen Williams (HW), Nicola Price (NP), Will Howlett (WH), Nick Alexander (NA), Emma Richards (ER), Richard Portas (RP), Alison Poole (AP), Phillip Andrews (PA), Diane Gill (DG), Alison Powell (AP), Natalie Stork (NS), Catherine Power (CP), Cllr Joel Williams (JW), Suzanne Williams (SW), Mari Phillips (MP), Geraldine Foley (GF), Jennie Hughes (JH), Patrick Brunnock (PB), Saffron Herbert (SH), Sara Allen (SA), Ann Griffin (AG),

Cyf	Casgliadau/Camau Gweithredu	Pwy
1.0	Ymddiheuriadau a chroeso	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a derbyniodd ymddiheuriadau.	
2.0	Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.	
2.1	Camau gweithredu/materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol: <ul style="list-style-type: none">• Cafodd MG y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru (LIC) ynghylch archebu athrawon cyflenwi; mae mater technegol yn cael ei datrys (AD i drafod gyda TG). Holodd TA amserlenni i ddatrys y materion ac a oedd y mater yn benodol i Gaerdydd neu'n effeithio ar Gymru gyfan. Cam Gweithredu: Bydd MG yn gwirio a oedd hyn yn benodol i Gaerdydd ac yn ymateb cyn gynted â phosibl.• Yn dilyn y FfCY, cyfarfu grŵp ffocws (aelodau o'r grŵp strategaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY)) i drafod dadansoddiad ystadegol y fformiwla ADY, modelu ariannol ac effaith addasu liferi i lywio meincnodi.• Cyfarwyddodd IA holl gyfarwyddiaethau a thimau cyfrifeg Cyngor Caerdydd i gyfleu'n glir ymlaen llaw unrhyw newidiadau i ffioedd mewnol, gan gynnwys cytundebau lefel gwasanaeth (CLGau). Cam Gweithredu: Bydd mecanwaith cyfathrebu gwell ar ffioedd i ysgolion yn eitem mewn cyfarfod y FfCY yn y dyfodol.• Aeth EA i gynhadledd penaethiaid cynradd i siarad ar y cynnig cyllido lleoedd meithrin, bydd y cynnig newydd yn cael ei drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod.• Nododd EA fod PN yn ymgynghori ar arfer da swyddogion presenoldeb ysgol (SPY) uwchradd gyda chlystyrau, mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Bydd y clystyrau yn cydweithio y tu allan i'r cyfarfod i ddeall arfer gorau, bydd	MG IA EA

	<p>diweddariadau yn cael eu rhoi mewn cynadleddau penaethiaid. Cam Gweithredu: Cynllunio ariannol/gweithredu cyllid ar gyfer SPY i'w trafod mewn cyfarfod y FfCY yn y dyfodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofynnodd NN am eglurder ar gyllid SPY i ysgolion (uwchradd), a ddarperir fel rhan o'r CLG, a chyllid diwygiedig o fis Ebrill 2025 (cam gweithredu). • Roedd EA yn mynd i gynadleddau i gyflwyno modelu ariannol y fformiwla a bydd yn mynychu Cymdeithas Llywodraethwyr Caerdydd i gyfathrebu newidiadau posibl (cam gweithredu). • Hysbysodd EA swyddogion rheoli ariannol lleol (RhALI) fod cyllid cyfatebol ar gyfer cyfraniadau grant gwella addysg wedi dod i ben, bydd cyfathrebiadau ar faterion tebyg yn y dyfodol yn cynnwys penaethiaid yn uniongyrchol (roedd rhai swyddogion RhALI yn absennol). 	<p>EA</p> <p>EA</p>
3.0	Cyllideb	
3.1	<p>Nododd IA i'r Cabinet ar 9 Ionawr dderbyn a chymeradwyo papur i lansio'r ymgynghoriad ar y gyllideb (gan ddod i ben ar 5 Chwefror) a rhoddwyd diweddariad ar strategaeth y gyllideb ar gyfer 2025/26.</p> <p>Dangosodd setliad dros dro ar lefel y Cyngor gyfan gynydd o 5.3% mewn cyllid i Gyngor Caerdydd (4.3% ar gyfartaledd). Er bod y setliad yn uwch na'r disgwyl, roedd llawer o rwymedigaethau, gan gynnwys dyfarniadau cyflog a phensiynau athrawon. Mae adroddiad y Cabinet (gellir rhannu dolen) yn cynnwys paragraff ar gyfanswm cyllidebau dirprwyedig ysgolion a allai gynyddu £19.8m. Nid oedd unrhyw gynlluniau i gymhwyso arbedion effeithlonrwydd i gyllidebau ysgolion.</p> <p>Trosglwyddwyd y symiau llawn a dderbyniwyd i gyllidebau ar gyfer dyfarniad cyflog athrawon a phensiynau athrawon i gyllidebau ysgolion.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoddwyd y dyfarniad cyflog athrawon 5.5% ar gyfer 2024/25 yn llawn yn 2025/26, ynghyd ag effaith blwyddyn llawn. • Rhoddwyd dyfarniad cyflog 2024/25 nad oedd yn ymwneud ag athrawon o £1290 fesul pwynt ar y golofn gyflog yn llawn yn 2025/26. <p>Mae rhagdybiaethau dyfarniad cyflog ar gyfer 2025/26 yn parhau'n ffigur i'w ystyried a byddant yn cael eu rhannu dros yr wythnosau nesaf, ar ôl i fanylion y gyllideb gael eu cwblhau.</p> <p>Derbyniwyd gohebiaeth cyn y Nadolig ar fanylion grant pensiwn athrawon a dyfarniad cyflog athrawon ar gyfer 2024/25, gyda ffigurau dangosol wedi'u rhoi i ysgolion. Ystyriwyd adborth o wahanol gyfnodau, ac yna dosbarthiad dyraniadau mor agos at y ffigurau gwirioneddol â phosibl (yn wahanol i'r dull fformiwla arferol). Yn ddiweddarach, nodwyd bwlch o oddeutu £735k (oherwydd rhagdybiaethau cynllunio) ar y swm a dderbyniodd ysgolion ar gyfer dyfarniad cyflog athrawon (y gwahaniaeth mwyaf), dyfarniad cyflog nad oedd yn ymwneud ag athrawon (bwlch o £20k) a phensiwn athrawon. Bydd swyddogion yn ysgrifennu at ysgolion ar 16 Ionawr, gan hysbysu y byddai'r gwahaniaethau ar gyfer 2024/25 yn cael eu talu, wedi'u dosbarthu trwy'r un dull o ddyraniadau cyn y Nadolig.</p> <p>Mewn ymateb i ymholiad gan MB ar sut y defnyddiwyd y fformiwla, esboniodd IA fod swyddogion RhALI wedi ymgynghori ag ysgolion i ddeall bwlch 2024/25, cyn darparu ffigurau cyllid dangosol i gyllido'r dyfarniad cyflog. Gan fod y fformiwla yn 2025/26 yn cael ei gyrru gan niferoedd disgyblion, pwysladau ac ati, efallai na fydd ysgol â llai o ddisgyblion yn anghymesureded nag eraill yn derbyn cymaint â'r grant</p>	<p>IA</p>

(derbyniwyd egwyddor). **Cam Gweithredu:** Bydd IA yn cyflwyno arwyddion ar y gwahaniaeth mewn ffigurau rhwng y ddau dull.

Roedd MB o'r farn y dylid talu cyflog athrawon ysgol fel y mae, gyda'r cyflog yr un fath ym mhob ysgol. Cadarnhaodd EA fod sail y cyfrifiad yr un fath ar gyfer pob ysgol, ffigurau gwirioneddol hyd yma a gwariant rhagamcanol hyd at ddiwedd y flwyddyn. Mae pob swyddog RhALI yn defnyddio'r un dull cyfrifo, defnyddir dull gwahanol ar gyfer ei ysgol, roedd y ddau ffigur wedi'u halinio. Digwyddodd y bwllch yn 2024/25 oherwydd rhagdybiaethau cyflog, bydd rhagdybiaethau LIC ar gyflogau grant cymorth referniw yn cael eu drilio i lawr i sicrhau bod pob un yn cael eu halinio yn y dyfodol.

Nododd IA y bydd rheoliadau fformiwla yn parhau i gael eu dilyn yn 2025/26, gan edrych ar yr uned disgyblion a bwysolir yn ôl cyfartaledd, gyda phwysiadu costau cyflog ychwanegol wedi'u hystyried yn rhan o'r fformiwla ac effaith costau, dosbarthiad wedi'i yrru i ryw raddau gan niferoedd disgyblion. Mae'r sail yn wahanol i fecanwaith grant 2024/25, a yrrwyd gan niferoedd disgyblion. Gellir trafod sut roedd y fformiwla yn gyrru allan yr uned disgyblion a bwysolir yn ôl cyfartaledd (cost cyflogau) yng nghyfarfod nesaf y FfCY.

Cadarnhaodd IA ac EA fod archebiad arian parod wedi'i godi i ysgolion dderbyn yr holl symiau a drafodwyd heddiw o fewn yr wythnos, gan gynnwys ôl-16. Bydd cyfathrebu pellach ar addasiadau ôl-16 yn cael ei ddosbarthu.

Nododd IA ganrannau cynyddol a throthwy yswiriant gwladol llai o 1 Ebrill 2025. Roedd y llywodraeth ganolog a LIC wedi cadarnhau y byddai rhywfaint o gymorth ariannol yn cael ei roi i gynghorau ar gyfer staff a gyflogir yn uniongyrchol (mae'r swm yn anhysbys tan flwyddyn ariannol 2025/26). Nid oedd y cymorth ariannol wedi'i gynnwys yn y setliad. Mae'n parhau'n ansicr pa mor bell y byddai'r cymorth yn ymestyn, oherwydd gwahaniaethau mewn cyflogaeth, h.y. roedd rhai staff wedi'u rhoi ar contract allanol. Roedd hyn yn annhebygol o effeithio'n fawr ar ysgolion. Bydd effaith bosibl newidiadau yswiriant gwladol i ysgolion yn cael ei chyfrifo a bydd cymorth ariannol i'r ysgolion yn cael ei basbortio'n llawn.

Tynnodd ER sylw at yr adolygiad ar wasanaethau glanhau ar gyfer ysgolion, gan nodi bod staff yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol, a gofynnodd a fyddai ysgolion yn cael eu heffeithio pe bai'r gwasanaeth yn cael ei roi ar contract allanol. Cadarnhaodd IA nad oedd taliad i ddarparwyr yn hysbys. Mae hyblygrwydd i edrych ar amgylchiadau ysgolion unigol i'r awdurdod gynorthwyo, gan ystyried faint o arian a dderbynnir gan lywodraeth ganolog a LIC i gefnogi, a'r swm y byddai'r awdurdod yn ei dalu.

Gofynnodd TA a fyddai cynyddiadau mewn yswiriant gwladol yn effeithio ar athrawon cyflenwi a gyflogir trwy asiantaethau, gan godi costau'n sylweddol. Cadarnhaodd IA fod hyn yn bosibl. Roedd darparwyr gofal cymdeithasol yn elfen arall a allai gael ei heffeithio ar lefel genedlaethol. Mynegodd TA bryderon am yr oedi wrth sefydlu'r plattform Teacher Booker a'r gostyngiad ariannol sylweddol ar adnoddau Caerdydd.

Ychwanegodd IA y dylid cynyddu'r grantiau a dderbynnir yn unol â chostau yswiriant gwladol. Nid yw'n ymddangos bod cyllid grant wedi cadw i fyny â chostau cynyddol dyfarniadau cyflog a phensiynau athrawon.

Clerc,
FfCY,
Cadeirydd

	<p>Gofynnodd y Cadeirydd i gydweithwyr ystyried y ddogfen ymgynghori. Bydd y Clerc yn dosbarthu i'r fforwm y ddolen i'r ymgynghoriad ar y gyllideb, gan ofyn am i sylwadau gael eu cyflwyno i'r Cadeirydd erbyn dydd Llun 10 Chwefror. Bydd y Cadeirydd yn coladu ymatebion ac yn drafftio llythyr ymateb gan y fforwm i'r ymgynghoriad ar y gyllideb, i'w drafod a'i gytuno mewn cyfarfod arbennig y FfCY ar ddydd Llun 17 Chwefror.</p> <p>Nododd IA y bydd swyddogion yn anelu at ddarparu cyllidebau dangosol i ysgolion ar 21 Chwefror, yn seiliedig ar y fformiwlâ.</p> <p>Gofynnodd AJ a oedd swm canrannol wedi'i gynnwys yn y gyllideb rhagdybiaeth cyflog. Cadarnhaodd IA fod canrannau ar ragdybiaethau cyflog yn waith parhaus sydd ar y gweill. O ran yswiriant gwladol, mae sefyllfa ddrafft y gyllideb ar gyfer 2025/26 sy'n sail i'r ymgynghoriad yn adlewyrchu rhagdybiaeth o 85% o gyllid tuag at gost cynyddiadau yswiriant gwladol ar gyfer staff a gyflogir yn uniongyrchol yn unig. Cyfrifwyd y ganran ar gyfer doethineb, o ystyried y lefelau presennol o ansicrwydd, ac mae'n tybio y byddai'r awdurdod yn derbyn 85% o'r costau yswiriant gwladol a ragwelir. Roedd y 15% a oedd yn weddill wedi'i ystyried yn rhan o'r cyllidebau, gan gynnwys ysgolion.</p>	
4.0	Diweddariad grantiau 2025/25	
4.1	<p>Nododd EA fod LIC wedi dyfarnu grantiau ychwanegol i Gyngor Caerdydd i'w pasbortio i ysgolion.</p> <p>Derbyniodd Caerdydd grant ysgolion safonol o £2.3m a grant cymorth Cydlynwyr ADY o £578k (a argymhellwyd gan y corff adolygu cyflogau annibynnol). Bydd ysgolion yn derbyn cadarnhad o ddyraniadau unigol, addasiadau grant ôl-16 a diweddariad ar ddiffyg cyflog a phensiwn athrawon/nad yw'n ymwneud ag athrawon ar 16 Ionawr.</p> <p>Er bod lefel Cymru gyfan ar gyfer 2025/26 yn debyg i 2024/25, byddai cynyddiadau cyflog a newidiadau yswiriant gwladol yn lleihau'r swm. Mae ansicrwydd arall ynghylch a fyddai cyllid Cydlynwyr ADY yn cael ei dderbyn trwy grantiau y flwyddyn nesaf. Bydd swyddogion yn cwrdd â LIC ar 21 Ionawr er mwyn cael mwy o eglurder ar 2025/26.</p> <p>Nid oedd ôl-16 yn rhan o grant setliad LIC mwyach, bydd Medr, y corff cyfryngol, yn rhoi grantiau pasbort. Bydd dyfarniadau grant yn cael eu cyfathrebu i benaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr pan fyddant yn hysbys.</p> <p>Nododd ME y dylai grantiau a dalwyd i'r consortia yn y gorffennol nawr gael eu derbyn gan yr awdurdod lleol (ALI), gan leihau biwrocratiaeth yn yr haen ganol, gyda blaenoriaeth ar gyllid i ysgolion a gofynnodd am i hyn gael ei fonitro. Cam Gweithredu: Bydd EA yn alinio newidiadau i ffrydiau grant wrth i'r adolygiad haen ganol symud ymlaen.</p> <p>Esboniodd MG fod LIC yn ei gwneud yn ofynnol i'r ALI basbortio cyfanrwydd y grantiau ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 i Gonsortium Canolbarth y De. Nid oedd LIC wedi cadarnhau a fyddai angen pasbortio arian ar gyfer trefniadau rhanbarthol yn 2025/26. Roedd disgwyl y byddai LIC yn dileu'r gofyniad wrth i'r adolygiad haen ganol fynd rhagddo. Roedd LIC wedi rhoi gwybod y bydd yn cadw cyfran o'r arian grant i ddatblygu'r Asiantaeth Genedlaethol, gyda'r ALI i dderbyn y gweddill.</p>	EA

	<p>Mynegodd MB bryderon am y grant Ôl-16 yn symud i Medr, gallai ysgolion ddod dan anfantais anfwriadol pe bai arian yn cael ei ddyrannu i golegau. Holwyd am fesurau diogelu ar gyfer model Cymru gyfan. Nododd EA o wybodaeth a rannwyd ag ef fod sail y cyllid yn parhau'n ddigyfnewid wrth drosglwyddo o LIC i Medr. Mae dyrannu'n dibynnu ar bwysoli ar gyfer niferoedd disgyblion a mathau o gyrsiau/cymwysterau.</p> <p>Argymhellodd IA friff gwylio ar gyfer cyfeiriad yn y dyfodol, gan sicrhau bod ymgynghoriad priodol i ddeall rhesymeg, gyda chyfathrebu parhaus ar effeithiau ariannol unrhyw newidiadau. Gall modelau ddod yn fwy safonedig dros amser.</p> <p>Rhannodd ME bryderon am gyfeiriad ôl-16 yn y dyfodol. Nid oedd yr ymgynghoriad a rannwyd yn cyfeirio at ADY; nid oedd gan fwrdd Medr gynrychiolaeth gan ysgolion.</p>	
5.0	Cynigion fformiwla 2025/26	
5.1	<p>Amlinellodd EA y ddogfen Rhagdybiaethau Fformiwla; bydd EA yn ei hailddosbarthu ar ôl y cyfarfod, i gynnwys ffioedd arholiadau mewn ysgolion uwchradd.</p> <p>Roedd y pwyntiau a drafodwyd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnig symud y ffrwd gyllido prif ffrwd ar gyfer ADY i sail fformiwla, gyda chap canrannol ar y golled uchaf (5%) a'r enillion uchaf (15%) o'r dull dosbarthu cyfredol. • Rhyddhau £700k ychwanegol o gyllid o'r uned disgyblion a bwysolir yn ôl cyfartaledd i liniaru colledion ysgolion unigol o ganlyniad i weithredu'r fformiwla newydd. • Diogelu ysgolion sydd â chofrestri sy'n gostwng gyda chyfandaliad cynyddol o £12,5k i £20k • Cyllid Lleuedd Meithrin - gostwng nifer y lleoedd mewn pedair ysgol feithrin ledled y ddinas (cyfanswm) mewn lleoliadau meithrin ysgolion cynradd rhwng 2024/25 a 2025/26. • Swyddogion Presenoldeb Ysgol – cynigir cynyddu'r cyllid £400k (yn cynnwys cynyddiadau chwyddiant o £160k). Mynegodd ME bryderon am ddyraniadau newydd anhysbys, gan awgrymu ffyrdd eraill o ddod â buddion na chynyddu cyllid. Croesawyd yr adolygiad ar gyfer cydraddoldeb clwstwr, rhesymeg, cost a budd ac arbedion effeithlonrwydd. Mae rhai clystyrau sy'n gweithio'n dda yn derbyn llai, dylid ymestyn arfer da. Roedd ysgolion yn cyllido graddau gwahanol ar gyfer SPY (5 a 6). Diffyg dealltwriaeth gyffredinol o strategaeth, nid oedd yr un strategaethau effeithiol wedi'u gweithredu ym mhob clwstwr. • Cam Gweithredu: Bydd EA yn alinio gweithgareddau gweithredol, polisïau ac ymgynghori a gynhelir wrth gyfathrebu newidiadau cyllid i'r FfCY. • Cadarnhaodd EA y byddai newidiadau cyllid yn cael eu gweithredu, gydag adnoddau ar ailosod SPY, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan PN a'r tîm Presenoldeb Ysgolion, yn dilyn trafodaeth gyda chlystyrau. Bydd EA yn rhoi sylwadau a wnaed i PN. Cynigiodd ME fod canlyniad adolygiad/adolygiadau ac argymhellion ar gyfer gwella yn cael eu cyfathrebu i'r FfCY cyn gweithredu taliadau ychwanegol. • Cyllid cam 3 a 4 – adolygiad i'w gynnal gydag argymhellion, datblygu polisi newydd, disgwyliadau newydd o ysgolion a chynnig ar gyfer newidiadau i'r ffrwd gyllido. • Symleiddio Fformiwla/Uned Disgyblion a Bwysolir yn ôl Cyfartaledd - newidiadau i gyflwyniad y fformiwla, dim newid i gwantwm a ddirprwyir i bob ysgol. 	<p>EA</p> <p>EA</p> <p>EA</p> <p>EA</p>

	<ul style="list-style-type: none"> Fformiwla Ysgol Arbennig – mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i ddeall a llunio disgrifyddion priodol a chymhareb athro/disgyblion/cynorthwy-ydd addysgu/disgyblion. Cam Gweithredu: Caiff diweddariad ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y FfCY. <p>Diolchodd y Cadeirydd i EA am y gwaith sylweddol a wnaed ar y fformiwla a'r cynigion, a diolchodd i gydweithwyr am eu hadborth a'u cyfraniadau.</p>	
6	Adolygiad o'r fformiwla yn y dyfodol	
6.1	<p>Cwestiynodd EA awydd i adolygu sut roedd staffio yn cael ei gylldo (arweinyddiaeth, addysgu/ddim yn addysgu), perthynas â'r uned disgyblion a bwysolir yn ôl cyfartaledd a chyfandaliadau i ysgolion.</p> <p>Y camau nesaf a awgrymwyd oedd grwpiau ffocws (2-3 ar gyfer cynradd) ar fformat, a thrafodaethau gyda phenaethiaid uwchradd yn unigol (cyfarfodydd parhaus gydag ysgolion arbennig). Ceisiwyd trafodaeth ansoddol ar sut roedd adnoddau yn cael eu cynllunio yn yr ysgol a sut y gallai cyllid adlewyrchu hyn, gan fwydo'n ôl i weithdy pellach yn yr haf.</p> <p>Gwahoddodd y Cadeirydd feddyliau a mecanweithiau i weithredu os yn gytûn.</p> <p>Nododd ME amrywiad sylweddol mewn strwythur a chostau staffio ysgolion, yn dibynnu ar y model a roddwyd ar waith/etifeddwyd. Byddai cymorth i benaethiaid sy'n symud i ysgol yn fuddiol, i ddeall effaith strwythurau staffio.</p> <p>Awgrymwyd sefydlu dealltwriaeth ansoddol ar y gwahanol fodolau gyda phenaethiaid yn y lle cyntaf.</p> <p>Daeth y Cadeirydd i'r casgliad bod rhai aelodau'r fforwm yn dymuno gweld effaith y newidiadau presennol cyn edrych ar addasiadau pellach.</p> <p>Dywedodd MB fod angen bod yn ofalus wrth fynd â phenaethiaid allan o ysgolion, dylai eu ffocws fod ar blant yn cael cyfleoedd bywyd gwyb.</p> <p>Cadarnhaodd IA friff gwylio ar y fformiwla ac ADY i sicrhau ei bod yn gweithio'n optimaidd, bydd dealltwriaeth bellach yn cael ei datblygu yn fewnol a'i gwirio gyda'r FfCY.</p> <p>Nododd ME y gallai ysgolion ddechrau profi anawsterau oherwydd camgyfrifiad y pennaeth o gostau staff gwirioneddol, h.y. amser di-gyswllt/dim addysgu ar gyfer lefelau staff mewn ysgolion ac effaith uniongyrchol ar y gyllideb. Byddai bod â dealltwriaeth ar lefel awdurdod yn ddefnyddiol ac yn werthfawr i benaethiaid ddeall cost (dyddiol/bob awr) rolau gwirioneddol.</p> <p>Nododd WM fod llawer o waith i'w wneud yn y sector arbennig o hyd, yn enwedig twf yn y sector, byddai deialog barhaus yn cael ei chroesawu.</p> <p>O ddiwedd mis Ebrill, Bydd EA yn trafod gyda phenaethiaid ac yn casglu sylwadau i gyflwyno cynnig mewn cyfarfod y FfCY yn y dyfodol.</p> <p>Dilynydd trafodaeth ar amser cynllunio, paratoi ac asesu/amser di-gyswllt (gofyniad o 10% o'r amser addysgu) a sut y gellid adlewyrchu hyn yn y fformiwla.</p>	EA

	Bydd EA yn ystyried offeryn cynllunio senarios syml (gan gynnwys pro rata) i hysbysu penaethiaid yn well am effaith ariannol penderfyniadau posibl.	
7.0	Diweddariad Addysg	
7.1	<p><u>Adolygiad Haen Ganol</u></p> <p>Rhoddodd MG y diweddariad canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd Ysgrifennydd Cabinet Addysg LIC wedi galw am adolygiad manwl o'r haen ganol. • Jo-Anne Daniels a arweiniodd yr adolygiad ynghyd ag adnodd arbenigol. • Yn dilyn hynny, cyn y Nadolig, cymeradwyodd awdurdod Caerdydd bapur a bennwyd gan y Cabinet ar egwyddorion lefel uchel. • Dyma grynodedb o'r egwyddorion y cytunwyd arnynt: <ul style="list-style-type: none"> ➢ Adfer elfen gwella ysgolion Canolbarth y De; dychwelyd i'r ALLau o fewn ôl troed Canolbarth y De. ➢ Yr ALLau i gadw ôl troed rhanbarthol ar gyfer elfen dysgu proffesiynol y cwricwlwm o fusnes Canolbarth y De. • Roedd yn braf nodi bod y mwyafrif o benaethiaid wedi mynychu digwyddiad ar 10 Ionawr i gydweithio ar fodel gweithredu (gofynnwyd am dri deg o gynrychiolwyr penaethiaid). • Gosododd y gwaith a wnaed yn y digwyddiad y sylfeini ar gyfer model gweithredu mwy manwl. • Gofynnir i gynrychiolaeth lai o benaethiaid ddatblygu manylion y model gweithredu. • Derbyniwyd adborth ar fod yn ymwybodol o alw ar amser ysgolion ac arian optimaidd i ysgolion. • Agwedd allweddol ar y model newydd fydd cymorth ysgol i ysgol (y gofynnodd LIC amdano). • Mae swyddogion addysg yn awyddus i weithio gyda phenaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr ar y model gwella ysgolion newydd. • Bydd y camau nesaf yn cael eu mynegi mewn digwyddiad penaethiaid ledled y ddinas ar 17 Ionawr. • Disgwylir model gweithredu drafft erbyn hanner tymor mis Chwefror, i'w weithredu erbyn mis Medi 2026. 	
7.2	<p><u>Adolygiad ADY</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Jo-Anne Daniels yn arwain yr adolygiad ADY ynghyd ag adnodd arbenigol. • Gwaith maes sylweddol a dadansoddi data. • Y ddau berson arweiniol yn darparu adborth. • Bydd cydweithwyr yn cael eu diweddarau maes o law. 	
7.3	<p><u>Byrddau Effeithlonrwydd</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r arbedion effeithlonrwydd gorau posibl yn cael eu ceisio. • Mae llawer o adolygiadau ar y gweill yn y gyfarwyddiaeth i weithio'n fwy effeithiol a sicrhau arbedion effeithlonrwydd. • Disgwyliad tebyg gan ysgolion i gydweithio. • Cododd penaethiaid cynradd gyflenwi addysgu fel blaenoriaeth, argymhellwyd y system Teacher Booker. 	

	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd gallu arwain mewn ysgolion ac adnoddau gwaith a'r swm o amser angenrheidiol ar gyfer atgyweiriadau asedau ac AD yn elfen gref yn yr adolygiad haen ganol. • Gan nodi'r galw ar amser athrawon a phwysau yn y system ysgolion, bydd trefniadau dilyniannu mwy tryloyw ar yr adolygiad haen ganol ac ADY yn cael eu trefnu yn ystod y misoedd nesaf. • Byddai p'un a fyddai'r bwrdd effeithlonrwydd cynradd sydd ar ddod yn cael ei aildrefnu, i ailgasglu blaenoriaethau, yn cael ei benderfynu ar ôl y cyfarfod. 	
8.0	Gwasanaethau Arlwyo	
8.1	<p>Rhoddodd SS y diweddariad canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r adolygiad o wasanaethau arlwyo ysgolion yn cael ei fwrw ymlaen yn gorfforaethol. • Deallir y sefyllfa ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. • Mae cyfleoedd i gynhyrchu arbedion effeithlonrwydd ar wasanaethau a ddefnyddir a'r model gweithredu yn cael eu hystyried, i ymateb yn briodol i'r cynnig prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd mewn ysgolion cynradd ac anghenion gwahanol mewn ysgolion uwchradd. • Bydd cynllun rhaglen yn cael ei rannu â phenaethiaid maes o law. • Dim newid i ddarparu'r gwasanaeth arlwyo ysgolion yn y byrdymor. • Croesewir trafodaethau ar gyfleoedd i wella'r gwasanaeth yn y dyfodol agos. 	
9.0	Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol	
9.1	<ul style="list-style-type: none"> • Cyn y Nadolig, adroddodd gwasanaethau ymgynghoriaeth Edge ar argymhellion i sicrhau arbedion effeithlonrwydd ar gyfer trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol dros y tair blynedd nesaf. • Mae hyfywedd yr argymhellion yn cael eu hasesu, gydag addysg a thrafnidiaeth yn gweithio ar ddwy ffrwd: <ul style="list-style-type: none"> ➢ Effeithlonrwydd caffael – darpariaeth trafndiaeth (gan gynnwys llwybrau a phwyntiau casglu), caffael a mynediad i'r farchnad. ➢ Cymhwysedd ar gyfer trafndiaeth. • Dim bwriad i newid y polisi trafndiaeth (a bennwyd gan yr awdurdod yn 2016) yn y byrdymor. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal yn y tymor canolig (rhagwelir hyn mewn dwy flynedd). • Yn y lle cyntaf, adolygu trefniadau trafndiaeth ddisgresiynol a ddarperir ar gyfer rhai disgyblion unigol (ADY/amserlenni rhan amser/prif ffrwd) sy'n eistedd y tu allan i ofynion polisi presennol, gan sicrhau mai dim ond trafndiaeth ddisgresiynol angenrheidiol sy'n parhau. • Wrth symud ymlaen, bydd swyddogion yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi trafndiaeth presennol, yn gyson ac yn deg. • Cynhelir panel misol i ystyried ceisiadau am drafndiaeth unigol oherwydd anghenion ADY/iechyd. • Cynhelir panel ar wahân ar gyfer ceisiadau trafndiaeth ddisgresiynol yn y brif ffrwd. <p>Nododd ME fod trafndiaeth yn agwedd bwysig ar gyfer addysg Gymraeg a ffydd, gan dynnu sylw at fuddsoddiad prosiect Metro, ac arbedion effeithlonrwydd posibl trwy ddefnyddio'r rhwydwaith trenau yn y ddinas. Argymhellodd drefnu mynediad at docynnau blynyddol, gyda gostyngiad o 75%, i blant a phobl ifanc wneud gwaith allgyrsiol. Mae gan y fenter botensial i fod o fudd mawr i'r amgylchedd a dysgwyr.</p>	

	<p>Croesawodd SS yr awgrym. Roedd cydweithwyr trafndiaeth yn ystyried opsiynau, croesawyd awgrymiadau pellach.</p> <p>Cefnogodd y Cadeirydd sylwadau gan ME ac atgoffodd aelodau'r fforwm i anfon eu sylwadau ar yr ymgynghoriad ar y gyllideb.</p>	
10.0	Unrhyw Fater Arall	
10.1	Dim wedi eu codi	

Acronymau

FfCY	Fforwm Cyllideb Ysgolion
BY	Balans Ysgol
ASG	Adroddiad Strategaeth y Gyllideb
CYD	Cyllideb Ysgol wedi'i Dirprwyo
CC	Cyngor Caerdydd
LIC	Llywodraeth Cymru
LIL	Llywodraeth Leol
ALI	Awdurdod Lleol
ULI	Undeb Llafur
AD	Adnoddau Dynol
YG	Yswiriant Gwladol
BA	Blwyddyn Ariannol
TG	Treth Gyngor
Ch_	Chwarter_ (Rhif perthnasol)
CA	Cynllun Ariannol
GA	Gwasanaethau Ariannol
DC	Dyfarniad Cyflog
CBG	Cyflog Byw Gwirioneddol
PYADd	Prydau Ysgol Am Ddim
RhATC	Rheolaeth Ariannol Tymor Canolig
CATC	Cynllun Ariannol Tymor Canolig
SCTC	Strategaeth Cyllideb Tymor Canolig
CATCau	Cyllidebau Ariannol Tymor Canolig
SRhALI	Swyddog Rheoli Ariannol Lleol
CGCC/CG	Cronfa Galedi Cyngor Caerdydd/Cronfa Galedi
CGLIL	Cronfa Galedi Llywodraeth Leol
CGG	Cronfa Gydgyflenwi
TGAC	Taliad Gwella Anghenion Cymhleth
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
RhTY	Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion
GDD	Grant Amddifadedd Disgyblion
AAA	Anghenion Addysgol Arbennig
DDdY	Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol
SALI	Setliad Awdurdod Lleol
AHY	Addysg Heblaw yn yr Ysgol
DLESRTh	Dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr